Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG51731**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft sydd i'w cyhoeddi o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

23 Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-83745-434-1 ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft sydd i'w cyhoeddi o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac ymateb Llywodraeth Cymru.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Yr Is-adran Caffael Masnachol
Y Tîm Deddfwriaeth Caffael
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: YmgynghoriadCaffaelCymdeithasolGyfrifolCyhoeddus@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: **Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft sydd i'w cyhoeddi o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

# Cynnwys

Ymatebion i’r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru.................................... 5
Y camau nesaf ....................................................................................................... 18

## Cyflwyniad a'r Broses Ymgynghori

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrwyd yn Atodlen 1 (Awdurdodau Contractio) i gyflawni caffaeliadau cyhoeddus mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

Mae adran 43 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynglŷn â gweithrediad Rhan 3 (Caffael Cymdeithasol Gyfrifol). Roedd y canllawiau statudol drafft yr ymgynghorwyd arnynt yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Caffael Cymdeithasol Gyfrifol
- Gosod a Chyflawni Amcanion ar gyfer Caffael Cymdeithasol Gyfrifol
- Hysbysiadau – Cymalau Gweithiau a'r Gweithlu
- Strategaethau Caffael
- Adroddiadau Blynyddol ar Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol
- Cofrestrau Contractau
- Ymchwiliadau Caffael

Roedd canllawiau ynglŷn ag Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a Chod y Gweithlu a'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol, yn ogystal â Chymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol, wedi bod yn destun ymgyngoriadau ar wahân ac felly ni chawsant eu cynnwys o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a yw'r canllawiau statudol yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Gwahoddwyd adborth hefyd ar yr effaith bosibl ar y Gymraeg a chyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

Cafodd Llywodraeth Cymru 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd dau ymateb arall nad oedd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad, ond mae eu sylwadau wedi cael eu hystyried drwy'r ddogfen gyfan. Mae'r ymatebion wedi llywio'r gwaith o lunio'r canllawiau statudol terfynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i'r rhai hynny a roddodd o'u hamser i ymateb.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i rannu'n gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol a oedd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol os oedd yr ymatebydd wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â phob cwestiwn. Hefyd, roedd tri chwestiwn ynglŷn â'r Gymraeg.

### 1. Canllawiau statudol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol

1a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

1b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 1a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

#### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 16 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd wyth ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd un ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 18 o sylwadau.

Roedd sawl ymateb yn croesawu'r ymgais i gysoni'r ddyletswydd a'r canllawiau hyn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) a nododd eraill fod llawer o'r hyn sydd yn y cynnwys eisoes ar waith yn eu sefydliadau. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gellid rhoi mwy o bwyslais ar gysoni â Deddf 2015, er enghraifft drwy newid y gair “ymgynghori” i “cynnwys” a thrwy adlewyrchu'r ffyrdd o weithio yn well, er enghraifft drwy gyfeirio at integreiddio rhwng y dogfennau canllaw a dogfennau perthnasol eraill, a phwysleisio pwysigrwydd meddwl hirdymor. Awgrymwyd y gellid darparu dolenni i ddeunydd perthnasol arall.

Croesawyd yr enghreifftiau yn y ddogfen, a gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o'r rhain. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer cynnwys ychwanegol, er enghraifft cyfeiriadau at ddadgoedwigo a safonau Masnach Deg, rhagor ar gymorth i economïau lleol a

gwledig, yn enwedig mewn perthynas â bwyd, a chais i gryfhau'r gofyniad ynglŷn â diwydrwydd dyladwy ar hawliau dynol.

Roedd ymatebwyr hefyd yn gofyn am newidiadau i'r iaith megis "camau rhesymol" a "dylid ystyried" ac yn lle hynny y dylid defnyddio iaith sy'n gwneud rhwymedigaethau yn gliriach, ac y dylid cynnwys undebau llafur ochr yn ochr â chyfeiriadau at randdeiliaid.

Mae rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch p'un a ellir cymhwyso'r canllawiau hyn yn gymesur, yn enwedig pan fydd gofynion yn cael eu gosod ar fusnesau bach a sefydliadau yn y trydydd sector. Nododd sawl ymatebydd bwysigrwydd monitro, gorfodi a chymorth i weithredu. Mynegodd un ymateb anfodlonrwydd nad yw'r canllawiau wedi cael eu llunio'n derfynol yn gynt, o ystyried pa mor fuan y daw'r ddeddfwriaeth hon i rym.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r diwygiadau awgrymedig wedi cael eu hystyried a byddant yn arwain at sawl newid ac ychwanegiad, er enghraifft newid "ymgynghori" i "cynnwys" lle y bo'n briodol, hyrwyddo mwy o integreiddio drwy roi mwy o groesgyfeiriadau at ddogfennau perthnasol eraill, a chynnwys cyfeiriadau at safonau byd-eang lle y bo'n briodol a rhai ychwanegiadau at y rhestr o ganlyniadau. Bydd cyfeiriad penodol at gontractio â sefydliadau yn y trydydd sector yn cael ei gynnwys. Gan mai'r nod yw y bydd y canllawiau hyn yn gymwys i bob contract, boed yn rhai mawr neu fach, mae diwydrwydd dyladwy gorfodol ar hawliau dynol yn debygol o fod yn ofyniad anghymesur ar gyfer contractau bach. Fodd bynnag, bydd cyfeiriad at bwysigrwydd trin Egwyddorion Arweiniol y CU fel elfen greiddiol o gaffael cymdeithasol gyfrifol yn cael ei gynnwys mewn ôl-nodyn.

Mae ceisiadau am ddiwygiadau i gryfhau'r rhwymedigaethau yn y canllawiau wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, mae'r iaith a ddefnyddir mewn canllawiau wedi cael ei dewis i gyfateb i'r hyn a ddefnyddiwyd yn y Ddeddf.

Er bod lle i gynnwys mwy o enghreifftiau fel y'i ceisiwyd, mae'n bwysig nad yw'r canllawiau yn mynd yn rhy hir na chymhleth. Byddwn yn ystyried sut y gellid rhoi rhagor o enghreifftiau ac astudiaethau achos yn ychwanegol at y canllawiau hyn. Bydd rhestr o ymadroddion a diffiniadau sy'n ymddangos yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a'r rheoliadau yn cael ei chyhoeddi hefyd fel dogfen wybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i roi cymorth a hyfforddiant i Awdurdodau Contractio, a chanllawiau i gyflenwyr, a monitro'r broses o roi'r ddyletswydd hon ar waith. Bydd y broses adrodd flynyddol ac is-grŵp caffael y Bartneriaeth Gymdeithasol yn rhannau pwysig o'r broses adolygu barhaus hon.

## 2. Gosod a chyflawni amcanion ar gyfer caffael cymdeithasol gyfrifol

2a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Gosod a Chyflawni Amcanion ar gyfer Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

2b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 2a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 17 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd pum ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd un ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 18 o sylwadau.

Er bod ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan ar y cyngor ymarferol yn y ddogfen ganllaw hon, roedd rhai yn teimlo bod angen iddo fod yn gliriach ynglŷn â sut y bydd y broses o osod amcanion yn gweithio i Awdurdodau Contractio sy'n ymgysylltu â chaffael cydweithredol. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gall 7-10 o amcanion fod yn ormod ac roedd yn cwestiynu sut y gallai amcanion gysylltu â'r nodau llesiant. Codwyd pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb casglu tystiolaeth o gyflawni amcanion pan fydd y gwaith o reoli contract wedi'i ddatganoli. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod mwy o ddogfennau cysylltiedig y dylid eu hystyried wrth osod amcanion ac y dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r gair "cynnwys". Nododd ymatebydd arall fod i'r gair "ymgynghori" ystyr fanwl gywir i rai cyrff cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd fod angen diwygio'r cyfeiriad bod amcanion yn gymwys am gyfnod o 3-10 mlynedd er mwyn pwysleisio'r angen i ystyried effeithiau dros dymor llawer hwy. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu rhywbeth tebyg i adnodd llywodraeth ddatganoledig arall i gynorthwyo wrth ystyried llesiant ar gam cynllunio caffael.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am iaith gliriach ar ymgysylltu ag undebau llafur wrth osod amcanion. Awgrymwyd rhai diwygiadau pellach i'r geiriad hefyd, er enghraifft newid "sicrhau" i "lleihau" wrth gyfeirio at fynd i'r afael â risgiau torri hawliau dynol ac ati. Codwyd pwysigrwydd diwydrwydd dyladwy o ran hawliau dynol, a chyfrifoldeb byd-eang, mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Soniodd sawl ymatebydd am werth cydgynhyrchu, a oedd yn cynnwys darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau yn gosod amcanion.

Gofynnwyd am fwy o eglurder ynglŷn â sut y gallai amcanion fod yn gymwys i bob caffaeliad, o ystyried, yn enwedig, o ran caffaeliadau gwerth isel, na fydd pob amcan cyhoeddedig yn berthnasol o bosibl ym mhob achos. Awgrymwyd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyhoeddi amcanion sefydliadol Awdurdodau Contractio i gyd mewn un man.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r holl ddiwygiadau awgrymedig i'r ddogfen ganllaw hon wedi cael eu hystyried a bydd hyn yn arwain at sawl newid ac ychwanegiad at y ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n well awgrymu 4-7 o amcanion yn hytrach na 7-10 o amcanion, yn seiliedig ar brofiad o osod amcanion yn effeithiol o dan Ddeddf 2015, ac y bydd y gair "cynnwys" yn disodli "ymgynghori" lle y bo'n briodol. Mae'r cysylltiad rhwng Amcanion a'r nodau llesiant yn glir yn y Ddeddf, ac felly mae'n rhaid i hyn gael ei atgyfnerthu mewn canllawiau. Bydd y canllawiau hefyd yn cael eu diweddaru i gryfhau'r ffordd o weithio sy'n "cynnwys", y gofyniad i ymgysylltu ag undebau llafur, a sicrhau ffocws ar y tymor hwy. Bydd opsiynau ar gyfer gwella eglurder ynglŷn â sut mae amcanion yn gymwys i gontractau gwerth isel yn cael eu derbyn, gan gynnwys drwy gysylltu ag adrannau eraill o'r canllawiau, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau coladu amcanion Awdurdodau Contractio unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi.

Unwaith y bydd y Ddeddf yn ei llawn rym, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adnodd a awgrymwyd mewn sawl ymateb, a chyfleoedd eraill i adeiladu ar adnoddau i Gymru megis yr Asesiad Risg Cynaliadwyedd, er mwyn gwella cymorth i Awdurdodau Contractio wrth osod amcanion a'u dilyn wrth gaffael.

## 3. Hysbysiadau – Canllawiau Statudol ar Gymalau Gweithiau a'r Gweithlu

3a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

3b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 3a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig gyda 10 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd naw ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd pum ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd tri ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 15 o sylwadau.

Mae ymatebwyr yn cefnogi nodau'r canllawiau statudol ar y cyfan, ond maent yn tynnu sylw at yr angen am ofynion cliriach, mwy gorfodadwy, gan gynnwys pryderon ynglŷn â thermau fel "cymryd camau rhesymol". Mae'r adborth yn awgrymu pryderon ynglŷn â geiriad rhy hyblyg, prosesau hysbysu ac adrodd aneglur, gan gynnwys terfynau amser, ceisiadau am ragor o eglurder ynglŷn â rhwymedigaethau'r gadwyn gyflenwi, a phryderon ynglŷn â goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chostau,

gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â rhwymedigaethau a drosglwyddir drwy gadwyni cyflenwi.

Mae ymatebwyr hefyd yn galw am fwy o gysondeb â dyletswyddau statudol, eglurder ar gyfer sectorau penodol, a mwy o dryloywder. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch a oes gofyniad i gynnwys y camau hyn wrth allanoli gwasanaethau iechyd a gipiwyd o dan Reoliadau Iechyd Gwasanaethau (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025, ac eglurder ynglŷn â pha mor bell drwy gadwyn gyflenwi y dylid cymhwyso’r rhwymedigaethau yn y cymalau. Gofynnodd un ymatebydd am fwy o eglurder ynglŷn â’r graddau y mae cymalau gweithlu cyhoedddus cymdeithasol yn gymwys i fewnoli ac i drosglwyddo trefniadau allanoli blaenorol, ac ynglŷn â threfniadau yn ôl y gofyn o fframweithiau sy’n bodoli eisoes.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau ar gyfer cryfhau drafft y canllawiau hyn, gan gynnwys rhai manylion pellach am y prosesau hysbysu ac adrodd a’r terfynau amser, er mwyn rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i Awdurdodau Contractio a phartïon eraill. Fodd bynnag, bydd angen cadw rhywfaint o hyblygrwydd ynglŷn ag amseriadau, yn enwedig, ar gyfer achosion cymhleth. Mae llawer o’r derminoleg a amheuwyd gan ymatebwyr yn dilyn yr iaith a ddefnyddir yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, er enghraifft “cymryd camau rhesymol” (gweler adran 28 a 34) ac felly ni ellir ei newid. Yn yr un modd, nid yw’r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn pennu terfyn ar nifer yr haenau mewn cadwyn gyflenwi y disgwylir i’r rhwymedigaethau yn y cymalau hyn fod yn gymwys drwyddi, felly ni ellir cyflwyno terfyn o’r fath mewn canllawiau.

Mewn ymateb i’r cwestiwn ar allanoli contractau gwasanaethau iechyd a gipiwyd o dan Reoliadau Iechyd Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025; os yw’r contract yn dod o dan y diffiniadau o “contract cyhoeddus” a “caffael cyhoeddus” fel y’u diffiniwyd yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, yna mae gofynion Cod y Gweithlu yn gymwys, fel y byddai’r broses hysbysu.

Darperir ar gyfer tryloywder ynglŷn â chanlyniad hysbysiadau eisoes drwy’r gofynion cyhoeddi yn y Ddeddf. Dylai Awdurdodau Contractio gynnwys gwybodaeth am roi’r cymalau hyn ar waith a’u monitro, a chanlyniadau llesiant a sicrheir o ganlyniad iddynt, yn eu Hadroddiadau Blynyddol.

Codwyd sawl pwynt ynglŷn â Chod y Gweithlu a chymalau’r gweithlu, a’r cymalau gweithiau, a adlewyrchir y rhai a godwyd yn yr ymgyngoriadau ar God y Gweithlu a’r cymalau gweithiau. Mae ymatebion i’r sylwadau hynny yn yr ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi. Mae’r cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad ond yn ymwneud â’r broses hysbysiadau ei hun yn unig.

Fel y soniwyd yn yr ymateb i’r ymgynghoriad ar y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol, rhagwelwyd y llwyth gwaith ychwanegol sy’n debygol o ddeillio o fwy o ddiwydrwydd dyladwy o ran monitro’r broses o gymhwyso’r cymalau hyn, i gleientiaid a chontractwyr. Nodwyd costau amcangyfrifedig i gleientiaid a chontractwyr yn yr

Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol wrth graffu ar y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn 2023.

## 4. Canllawiau statudol ar strategaethau caffael

4a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Strategaethau Caffael yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

4b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 4a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 16 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd tri ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd dau ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 18 o sylwadau.

Er bod sawl ymatebydd yn teimlo bod y canllawiau hyn yn gyson â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a disgwyliadau polisi, mynegodd rhai bryderon nad ydynt yn ddigon penodol, er enghraifft, ynglŷn ag ymgynghori â rhanddeiliaid neu gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu'r strategaeth, cyflawni Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, sut y câi'r strategaeth ei chyhoeddi, a sut y dylai'r strategaeth gaffael ei hadolygu bob blwyddyn.

Gofynnwyd am i'r canllawiau adlewyrchu safonau gofynnol cliriach mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Awgrymwyd y dylid ychwanegu dolenni i ganllawiau eraill y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus y cyfeiriwyd atynt yn y canllawiau ar strategaethau caffael.

Nododd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol fod yn gymwys i bob contract ac nid dim ond y rhai rhagnodedig. Awgrymodd ymatebwyr y dylai fod gofyniad i'r canllawiau hyn gyd-fynd yn gliriach â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) a dyletswyddau perthnasol eraill, gan alw hefyd alw ffocws ar gynaliadwyedd cryfach, cyrchu moesegol a diwydrwydd dyladwy. Yn benodol, cafwyd awgrymiadau i gryfhau rhwymedigaethau ynglŷn â chyfrifoldeb byd-eang, a chyrchu lleol, a chynnwys rhagor o enghreifftiau yn y maes hwn ac o ran llesiant diwylliannol. Rhoddwyd rhai awgrymiadau i ddiwygio'r geiriad i sicrhau cysondeb â Deddf 2015, megis newid "ymgynghori" i "cynnwys", a'i gwneud yn ofynnol i strategaethau gael eu hintegreiddio â dogfennau perthnasol eraill.

Awgrymwyd y dylid annog Awdurdodau Contractio i gyhoeddi amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a strategaethau caffael mewn un ddogfen i gadw cysondeb rhwng yr amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a'r strategaeth gaffael.

Galwodd ymatebwyr am ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau, gan gynnwys ymgysylltu ag elusennau arbenigol, ac ymgysylltu gorfodol ag unedau llafur. Gofynnwyd hefyd am i'r derminoleg yn y canllawiau gael ei newid o “caiff” i “rhaid” mewn mannau.

Mynegwyd pryder y gall cyhoeddi strategaethau ar y cyd wanhau rhwymedigaethau, er enghraifft mewn perthynas â llais y gweithiwr. Gofynnwyd hefyd a allai Awdurdod Contractio gynnwys is-gwmnïau yn y strategaeth gaffael.

Codwyd pryderon ynglŷn â hygyrchedd ac felly dryloywder strategaethau caffael, ac awgrymwyd y gallai'r strategaethau fod yn hygyrch yn gyhoeddus drwy eu cyhoeddi ar lwyfan canolog.

Cafwyd beirniadaeth bod cyhoeddi fersiynau terfynol o'r canllawiau yn hwyr wedi gwneud y broses o baratoi ar gyfer y gofynion newydd yn fwy anodd, yn enwedig os oes angen cydgysylltu trawsadrannol ac ystyriaeth i lywodraethu mewnol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd llawer o'r ymatebion yn cytuno bod y canllawiau yn cyd-fynd â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a bwriad y polisi. Cydnabyddir y rhai a ofynnodd am ganllawiau mwy penodol mewn rhai meysydd a bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys mwy o fanylion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r canllawiau yn mynd yn rhy hir a chymhleth, neu nad ydynt yn gosod gofynion anghymesur ar sefydliadau bach wrth iddynt ddatblygu ac adolygu eu strategaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyhoeddi rhagor o ddogfennau gwybodaeth ychwanegol neu dempledi i roi cymorth.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cryfhau'r iaith yn y canllawiau ar gyrchu lleol ac ar ymgysylltu ag undebau llafur a rhanddeiliaid pwysig eraill wrth ymgynghori ar y broses o ddatblygu eu strategaeth gaffael eu hunain, a sicrhau mwy o gysondeb â Deddf 2015.

Fodd bynnag, ni all y canllawiau estyn dyletswyddau y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ei hun, felly gallant, er enghraifft, ond gofyn am i “bob cam rhesymol” gael ei gymryd i gyflawni amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol ar gyfer contractau sydd wedi'u rhagnodi. Fodd bynnag, dylai'r strategaeth ei hun gwmpasu sut y caiff pob math o gaffael (gan gynnwys caffaeliadau gwerth isel) ei gyflawni mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, ac mae amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol yn gymwys i bob caffaeliad.

Unwaith y bydd strategaethau caffael Awdurdodau Contractio wedi cael eu cyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i roi mynediad haws atynt drwy, er enghraifft, lwyfan canolog.

## 5. Canllawiau statudol ar adroddiadau blynyddol ar gaffael cymdeithasol gyfrifol

5a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Adroddiadau Blynyddol ar Gaffael Cymdeithasol Gyfrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

5b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 5a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 17 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd tri ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd tri ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 16 o sylwadau.

Nododd sawl ymatebydd fod y canllawiau yn gyson â'u disgwyliadau a'u cynlluniau. Canolbwyntiodd rhai ar y data, gan gynnwys mewn rheoliadau sydd i'w casglu gan gyflenwyr ac ymarferoldeb casglu'r wybodaeth hon. Codwyd pryderon ynglŷn â chymesuredd yr hyn y gofynnir amdano, a pha mor drwyadl y bydd Llywodraeth Cymru yn ei fonitro ac yn craffu arno.

Roedd un ymatebydd yn holi sut y gellid symleiddio a chysoni prosesau adrodd ar amcanion llesiant sefydliadol ac amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol. Cafodd y trefniadau craffu a monitro eu cwestiynu hefyd, gan gynnwys cais i hyrwyddo dull integredig a dysgu o brofiadau perthnasol ar gyfer darnau tebyg o ddeddfwriaeth. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â sut y bydd yr adroddiadau blynyddol hyn yn integreiddio ag adroddiadau Llesiant blynyddol o dan Ddeddf 2015, a rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran gweithredu a monitro. Awgrymodd un ymateb fod adroddiadau blynyddol yn gyfle i'w gwneud yn ofynnol i roi adroddiad ar ddemograffeg y gweithlu.

Gofynnwyd hefyd am ragor o gyngor a thempledi, ochr yn ochr ag eglurder ynglŷn ag unrhyw ddata a geisir o brosesau rheoli contract contractau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac a yw hyn yn hepgor contractau a ddyfarnwyd cyn y daw'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus i rym. Gofynnodd ymatebwyr hefyd a ellid ystyried opsiynau i gysyllltu gwybodaeth piblinell a geisir yn yr ail adran â data a ddarperir o dan Ddeddf Caffael 2023 er mwyn osgoi dyblygu.

Galwodd un ymatebydd am ddisgwyliad cliriach y dylid ymdrin â phob un o'r saith nod llesiant mewn adroddiadau blynyddol, yn enwedig peidio â cholli "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang", ac awgrymodd rai newidiadau i'r geiriad i'r perwyl hwn. Gofynnodd ymatebydd arall am i adroddiadau blynyddol gynnwys gwybodaeth am darddiad bwyd a'i gyfraniad at economïau lleol a budd i'r gymuned. Awgrymodd un

arall fod angen eglurder ynglŷn â sut i roi gwybod am achosion lle nad yw amcanion wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys rhesymau a chamau cywiro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen i adroddiadau blynyddol gynnwys manylion ynglŷn â sut mae Awdurdod Contractio yn cyflawni ei amcanion ar gyfer caffaeliadau gwerth isel nad ydynt yn "gontractau rhagnodedig". Caiff y canllawiau eu diweddaru i wneud y pwynt hwn yn fwy eglur.

Er bod awgrymiadau i gynnwys rhagor o gynnwys ac enghreifftiau, e.e. ar gyfrifoldeb byd-eang a tharddiad bwydydd, wedi cael eu hystyried, teimlir y bydd cynnwys ychwanegol o bosibl yn fwy effeithiol mewn adrannau eraill o'r canllawiau, a bydd rhai newidiadau yn cael eu gwneud. Ni fydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn ofynnol tan ar ôl mis Ebrill 2027, ac mae hyn yn rhoi amser i Lywodraeth Cymru ychwanegu rhagor o ddogfennau gwybodaeth, templedi a chymorth i helpu Awdurdodau Contractio i gyflawni eu dyletswyddau adrodd blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gael gwared ar gymaint o ymdrech ddyblyg â phosibl o ran adrodd at ddibenion gwahanol a sut i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng data ac astudiaethau achos.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd craffu'n barhaus ar adroddiadau blynyddol ac mae'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Contractio drwy'r broses hon. Mae is-grŵp caffael y Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol yn debygol o gymryd diddordeb mewn adroddiadau blynyddol wrth iddo ddatblygu ei gyngor i Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data ar lefel cyflenwyr a bydd yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Contractio i nodi dulliau gweithredu ymarferol a rhoi cymorth wrth i'r fframwaith adrodd ymsefydlu. Bydd cyfleoedd i echdynnu data mewn Hysbysiadau Piblinell a gyhoeddir o dan Ddeddf Caffael 2023 i gynorthwyo gyda chrynodebau piblinell o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus hefyd yn cael eu hystyried.

Ymdriniwyd â'r wybodaeth sydd i'w cheisio gan gyflenwyr mewn ymgynghoriad cynharach ar y Rheoliadau ac nid yw'n destun yr ymgynghoriad hwn. Er y gall Awdurdodau Contractio ddewis casglu data ar ddemograffeg gweithlu a bylchau cyflog ac ati ac adrodd arnynt, mae'n heriol casglu a dehongli'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth eang o gontractau o feintiau a sectorau gwahanol, ac fel y cyfryw na chafodd hyn ei gynnwys fel gofyniad statudol yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a'r Rheoliadau.

## 6. Canllawiau statudol ar gofrestrau contractau

6a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Cofrestr Contractau yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

6b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 6a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd yr ymateb yn negyddol ar y cyfan. Roedd 12 o 27 o ymatebion yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Roedd naw ymatebydd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Nid oedd tri ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd tri ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd 18 o sylwadau.

Mynegwyd pryder bod y canllawiau yn caniatáu peidio â chynnwys gwybodaeth a ddylai gael ei chyflwyno yn y gofrestr gontractau. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r canllawiau egluro nad oes disgwyl i Awdurdodau Contractio gyhoeddi cyfeiriadau cyflenwyr lle ystyrir bod hyn yn ddata personol, a sicrhau nad yw'r gofrestr yn datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif.

Cododd rhai ymatebwyr nad yw system GwerthwchiGymru yn cynnwys nodweddion penodol, a bod angen i dempledi a chyfleusterau adrodd yn GwerthwchiGymru gael eu diweddaru i adlewyrchu gofynion Deddf Caffael 2023 a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Codwyd amheuon ynglŷn â chyhoeddi'r gofrestr gontractau ar system GwerthwchiGymru, gyda rhai ymatebwyr yn nodi y dylai fod modd i Awdurdodau Contractio yng Nghymru ddewis lle maent yn cyhoeddi'r gofrestr contractau.

Nododd rhai ymatebwyr fod cyhoeddi'r gofrestr gontractau yn dyblygu gwaith, gan fod yn rhaid i Awdurdodau Contractio gyhoeddi gwybodaeth am gontractau eisoes o dan y Ddeddf Caffael.

Codwyd pryderon ynglŷn â'r baich gweinyddol cynyddol, yn ogystal â'r trothwy anghymesur ar gyfer contractau cofrestradwy ac awgrymwyd y dylid codi'r trothwy.

Nododd rhai ymatebwyr broblemau gyda gwerth/data contractau ar gyfer contractau cydweithredol ac awgrymwyd y dylid adrodd ar sail gwariant yn lle hynny.

Codwyd pryderon nad yw canllawiau GwerthwchiGymru ar nodwedd y "gofrestr gontractau" yn gyfredol ar hyn o bryd, a chodwyd amheuon hefyd a allai'r hysbysiad terfynu ganiatáu ar gyfer celu contract ar y gofrestr drwy GwerthwchiGymru yn awtomatig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid symleiddio'r broses weinyddol i ymdrin â'r pryderon a godwyd. Dylid nodi bod nodwedd y gofrestr contractau yn GwerthwchiGymru wrthi'n cael ei diweddaru, fel y bydd data'r Hysbysiad Manylion Contract perthnasol yn cael eu tynnu'n awtomatig i mewn i'r gofrestr contractau yn GwerthwchiGymru unwaith y bydd hyn wedi'i alluogi gan yr Awdurdod Contractio a thrwy hynny byddwn yn ymdrin â phryderon ynglŷn â dyblygu. Caiff y canllawiau ar y gofrestr gontractau yn GwerthwchiGymru eu diweddaru i adlewyrchu hyn.

Caiff canllawiau eu diweddaru i nodi nad oes rhwymedigaeth ar Awdurdodau Contractio i ddefnyddio nodwedd y "gofrestr gontractau" yn GwerthwchiGymru, a'u bod yn gallu cyhoeddi eu cofrestr gontractau ar wefan eu sefydliad, cyhyd â'i bod yn cydymffurfio ag adran 40 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ac unrhyw reoliadau cysylltiedig.

Bydd dogfen ganllaw GwerthwchiGymru ar y gofrestr gontractau hefyd yn cael ei diweddaru.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pryderon a godwyd ynglŷn â'r ffaith nad yw'r Hysbysiad Manylion Contract yn caniatáu i ddata ar gontractau cydweithredol gael eu gwahanu, a bydd yn ystyried atebion posibl yn y dyfodol. Bydd angen o hyd i'r Awdurdod Contractio ymyrryd â llaw er mwyn cysylltu'r Hysbysiad Terfynu i ddileu cofnod yn y gofrestr gontractau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryder ynglŷn ag atal gwybodaeth rhag cael ei chyhoeddi, ond mae'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn rhestru amgylchiadau penodol pan fydd modd gwneud hyn, ac ni ellir diwygio hyn drwy ganllawiau statudol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar y rheoliadau i drafod y trothwy ar gyfer cynnwys contractau yn y gofrestr gontractau. Pennir cynnwys y gofrestr gontractau yn y Ddeddf ac ni ellir ei diwygio drwy ganllawiau statudol.

## 7. Canllawiau statudol ar ymchwiliadau caffael

7a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod bwriad y polisi ar gyfer Ymchwiliadau Caffael yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y canllawiau statudol?

7b: Os ydych yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â Chwestiwn 7a, esboniwch pam nad ydych yn credu bod y canllawiau statudol yn bodloni'r gofyniad.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 16 o'r 27 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Nid oedd pum ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno a gadawodd dau ymatebydd yr ateb yn wag.

Cafwyd naw sylw.

Galwodd rhai ymatebwyr am gamau gorfodi cryfach a mwy cyson, gyda chosbau mwy eglur, gofynion is-gontractio cadarnach, ac ysgogwyr penodol ar gyfer dull ymchwilio sy'n seiliedig ar risg. Roedd eraill am weld mwy o dryloywder, adrodd cyson, eglurder ynglŷn â sut y gellir rhoi adborth i Awdurdodau Contractio yn anffurfiol, a phrosesau dilynol mwy eglur ar ôl ymchwiliadau.

Gofynnodd ymatebwyr am i lwybr cyfrinachol gael ei roi ar waith i randdeiliaid godi pryderon lle mae ymarfer caffael yn ymddangos yn anghyson â bwriadau'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Gofynnodd eraill am i'r canllawiau hefyd gydnabod y cyfleoedd a gyflwynir gan ymchwiliad caffael i nodi arferion da a meysydd lle mae angen rhagor o arweiniad a hyfforddiant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran yr hyn y gall ei gynnwys yn y canllawiau hyn, oherwydd yr angen i weithredu o fewn cwmpas y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a'i rheoliadau cysylltiedig. Bydd rhai newidiadau i'r canllawiau yn cael eu gwneud er hynny, er mwyn sicrhau mwy o eglurder a rhoi mwy o wybodaeth ymarferol.

Er mwyn gwella tryloywder drwy'r sector cyhoeddus cyfan a'i helpu i ddysgu gwersi, ar ôl 12 mis i'r Ddeddf ddod i rym, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai'n ddefnyddiol datblygu templedi adrodd safonol ac, os yw'n briodol, greu dull strwythuredig o fonitro camau dilynol sy'n deillio o ganfyddiadau ymchwiliad. Byddai hyn yn helpu i nodi tueddiadau, anghenion o ran galluogrwydd a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant wedi'i dargedu.

## 8 Y Gymraeg

8a: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau statudol enghreifftiol ar y Gymraeg? Hoffem glywed yn arbennig am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?

A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?

8b: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y canllawiau statudol enghreifftiol er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud bod y canllawiau statudol eu hunain yn gadarnhaol neu'n niwtral o ran eu heffaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Y rheswm dros hyn yw bod Awdurdodau

Contractio yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg sy'n effeithio ar eu prosesau caffael ac nid yw'r canllawiau hyn yn ychwanegu dim at y rhwymedigaethau hynny nac yn eu lleihau o gwbl. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid cymryd gofal i gymhwyso amcanion ynglŷn â'r Gymraeg yn gymesur, yn enwedig lle y byddai rhwymedigaethau ar BBaChau, am fod risg y gall gofynion anghymesur wneud BBaChau o Gymru yn llai parod i ymgynnig.

Awgrymodd ymatebwyr y gellid cynnwys mwy o enghreifftiau yn cyfeirio at y Gymraeg ym mhob rhan o'r canllawiau. Gofynnodd un ymatebydd am i'r cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol gael eu hadolygu i weld a allent gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r canllawiau ar gaffael cymdeithasol gyfrifol eisoes yn cynnwys enghraifft sy'n cyfeirio at y Gymraeg. Mae'n bwysig nad yw canllawiau statudol yn hirfaith ac am y rheswm hwn cyfyngwyd ar nifer yr enghreifftiau. Yn ychwanegol at y canllawiau statudol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer darparu rhagor o ddogfennau gwybodaeth ac astudiaethau achos er mwyn cefnogi Awdurdodau Contractio wrth iddynt roi'r dyletswyddau caffael yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ar waith. Bwriedir manteisio ar gyfleoedd i gynnwys deunydd sy'n cryfhau'r rhwymedigaeth i ystyried sut y gall caffael hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bu'r cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn destun ymgynghoriad gwahanol.

## 9. Y Gymraeg – Materion Cysylltiedig

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

**Crynodeb o'r ymatebion**

Codwyd sawl pwynt arall mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a chafodd rhai materion a godwyd mewn ymateb i gwestiynau cynharach eu codi unwaith eto. Gofynnodd un ymatebydd am ddogfen gryno symlach sy'n nodi'r prif ofynion yn y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol hyn. Gofynnodd un arall am gael gweld egwyddorion ymgysylltu'n gynnar a chymesuredd yn cael eu cymhwyso'n fwy trwyadl at y canllawiau. Roedd yn teimlo bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer contractau â sefydliadau yn y trydydd sector.

Nododd un ymatebydd nad yw'r broses o gasglu gwybodaeth am gyflenwyr i'w chynnwys mewn adroddiadau blynyddol yn debygol o ddangos perfformiad dros amser, am ei bod yn ymwneud â gwariant disgwyliedig ar adeg dyfarnu contract yn hytrach na gwariant gwirioneddol. Nodwyd bod hyn yn achosi problem yn enwedig o ran contractau cydweithredol lle nad yw'r gwariant disgwyliedig yn cael ei gofnodi. Nododd yr ymatebydd hefyd fod y broses o gasglu'r wybodaeth yn achosi dyblygu

gwaith yn y sector cyhoeddus, gyda phob Awdurdod Contractio yn casglu'r un wybodaeth oddi wrth gyflenwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Yn ogystal â chyhoeddi canllawiau statudol bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig digwyddiadau rhannu gwybodaeth ac yn gweithio ar ddeunydd hyfforddiant i helpu gyda gweithredu. Byddai crynodeb byr o'r gofynion yn ddefnyddiol fel rhan o hynny, a chaiff hyn ei ystyried.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dyblygu a heriau yn y broses sy'n cael ei sefydlu i gasglu gwybodaeth am lesiant gan gyflenwyr. Ymgynghorwyd ar y rhain yn gynharach er eu bod yn ymwneud â'r canllawiau ar adroddiadau blynyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw system orfodol ar waith yn y sector cyhoeddus i gofnodi gwariant gwirioneddol â chyflenwyr, sy'n golygu nad oes modd cyflwyno'r data sy'n ofynnol mewn adroddiadau blynyddol gan ddefnyddio gwariant gwirioneddol ar hyn o bryd.

Bydd systemau ar gyfer cofnodi'r wybodaeth hon yn cael eu hadolygu wrth i welliannau i amrywiol systemau ar ddata caffael gael eu gwneud dros y misoedd sydd i ddod. Yn y cyfamser, cyfrifoldeb pob Awdurdod Contractio (yn hytrach na pherchennog y fframwaith cydweithredol) yw cofnodi'r wybodaeth mor gywir â phosibl a chynnwys yr wybodaeth yn ei adroddiad blynyddol.

**Y camau nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, ni fydd yr holl faterion a godwyd mewn ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Bwriedir gwneud rhai newidiadau i'r canllawiau statudol fel y'i nodwyd, a chaiff y drafftiau terfynol eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau a achosir o ganlyniad i gyhoeddi'r canllawiau hyn mor agos i'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym, ac mae'n ymrwymo i helpu Awdurdodau Contractio gymaint â phosibl i roi'r dyletswyddau ar waith.